



YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
67/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
19/09/2016

Dulliau o ddeall canlyniadau ac effaith yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru: astudiaeth achos o Fyrddau Iechyd Lleol a gordewdra ymhlith plant

Dulliau o ddeall canlyniadau ac effaith yn y gwasanaethau
cyhoeddus yng Nghymru: astudiaeth achos o Fyrddau
Gwasanaethau Lleol a gordewdra ymhlith plant

Adroddiad ymchwil ar ran y Grŵp Gwasanaethau Effeithiol

Karis Vaughan a Jamie Smith

Adroddiad Ymchwil Llawn: Vaughan, K. a Smith, J. (2016). *Dulliau o ddeall canlyniadau ac effaith yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru: astudiaeth achos o Fyrddau Gwasanaethau Lleol a gordewdra ymhlith plant* Rhif adroddiad GSR 69/2016.

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/approaches-understanding-outcomes-impact-welsh-public-services/?lang=cy>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth
Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ceri Greenall

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

029 2082 5634

E-bost: ceri.greenall@wales.gsi.gov.uk

Tabl Cynnwys

1 Cefndir	2
2 Dulliau a Dull Gweithredu	4
3 Y Sail Dystiolaeth Bresennol	5
4 Canlyniadau	10
Adolygiad o Ymatebion BGLlau i Adroddiad ESGV	10
Cyfweiliadau â Rhanddeiliaid	11
Cyfweiliadau â Byrddau Gwasanaethau Lleol	11
Barn BGLlau ar ordewdra a'r angen i asesu effaith	11
Defnyddio Tystiolaeth a Dethol Camau Gweithredu	12
Sut mae BGLlau yn Barnu Llwyddiant	13
Rhwystrau sy'n Atal Dealltwriaeth o Effaith.....	14
Tystiolaeth Feintiol o gymharu â Thystiolaeth Ansoddol	16
5 Casgliadau ac Argymhellion	17
Cyfeiriadau	22
Atodiad A - Canllawiau Pwnc	24

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil i'r ffordd y mae Byrddau Gwasanaethau Lleol¹ (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel BGLlau) yn bwrw ati i asesu canlyniadau, gan ddefnyddio eu gwaith mewn perthynas â gordewdra ymhlith plant fel astudiaeth achos. Fe'i lluniwyd fel rhan o waith parhaus o fewn ffrwd waith Atal Gordewdra ymhlith Plant y rhaglen Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed (ESVG) yn ystod y pedwerydd Cynulliad². Diben rhaglen ESGV oedd gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus i grwpiau agored i niwed drwy nodi, hyrwyddo a chefnogi trefniadau ar gyfer datblygu dulliau cydweithredu llwyddiannus.
- 1.2 Nododd ESGV fod gordewdra ymhlith plant yn her gyfun i'r sector cyhoeddus cyfan ac fe'i cynhwyswyd yn ei rhaglen waith yn 2013. Yn fwy penodol, canolbwyntiodd ESGV ar ystyried datrysiadau arloesol i'r sector cyhoeddus cyfan mewn ymateb i ordewdra ymhlith plant. Comisiynodd Bwrdd Cyflawni ESGV Grŵp Llywio Atal Gordewdra Ymhlith Plant i ymgymryd â'r gwaith, wedi'i gadeirio gan aelod o Fwrdd ESGV ac yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fforwm Gordewdra Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, yr heddlu a'r trydydd sector.
- 1.3 Cyflwynodd adroddiad terfynol y grŵp llywio, Turning the Curve on Childhood Obesity in Wales (Llywodraeth Cymru, 2014) chwe argymhelliad allweddol ar ffurf canlyniadau dymunol neu 'newidiadau rydym yn awyddus i'w gweld'. Honnwyd y byddai'r rhain yn cynnig dull gweithredu cyson a chynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, pe'u gweithredwyd ar y cyd. Yn dilyn hynny, dosbarthwyd yr adroddiad hwn, ynghyd â phapur trafod, i Fyrddau Gwasanaethau Lleol i'w hystyried. Gofynnwyd i'r BGLlau gyflwyno adroddiad ar bob un o'r chwe chanlyniad dymunol, yng nghyd-destun eu camau gweithredu a'u perfformiad nhw eu hunain. Gofynnwyd iddynt, yn eu tro, ystyried y camau gweithredu a'r ymyriadau sydd ar waith i atal gordewdra ymhlith plant yn eu hardaloedd ac i gyflwyno casgliadau eu trafodaethau i ESGV.
- 1.4 Datgelodd adolygiad cychwynnol o'r ymatebion ysgrifenedig hyn fod BGLlau o'r farn bod gordewdra ymhlith plant yn flaenoriaeth a bod y rhan fwyaf ohonynt yn

¹ Gwnaed y gwaith ymchwil ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, sef rhagflaenwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016 o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

²Yn dilyn hynny, ailenwyd Rhaglen ESGV a chyfeirir ati bellach fel y Grŵp Gwasanaethau Effeithiol.

gweithredu'n gyson ag argymhellion grŵp llywio ESG. Fodd bynnag, ni roddodd ymatebion y BGLlau cymaint o wybodaeth am y ffordd yr oeddent yn monitro ac yn gwerthuso'r camau gweithredu hynny. Nid oedd yn eglur sut roedd BGLlau yn bwrw ati i ddeall canlyniadau neu effeithiau eu mentrau ar gyfer atal gordewdra ymhlith plant. At hynny, cydnabu ymatebion gan nifer o BGLlau fylchau yn eu dealltwriaeth o ganlyniadau a mynegwyd awydd am fwy o allu ac adnoddau yn y maes hwn³.

1.5 Felly, mae'r adroddiad hwn yn gwneud cyfraniad pwysig. Mae'n ystyried yn fanwl y dulliau gweithredu a ddefnyddir gan BGLlau i ddeall canlyniadau a/neu effeithiau eu hymyriadau mewn perthynas â gordewdra ymhlith plant. Mae hyn yn bwysig am ddau reswm:

1. I'r rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol ar ordewdra ymhlith plant, mae'n rhoi ymdeimlad cyffredinol o ba mor ddatblygedig y mae dulliau gweithredu o'r fath; lle y gellid eu datblygu a'u gwella; a beth sydd angen er mwyn gwneud cynnydd wrth fesur canlyniadau/effeithiau;

2. Ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u rhanddeiliaid, mae'n rhoi wybodaeth bwysig o ran parodrwydd BGCau i symud tuag at yr Aseidiadau o Lesiant Lleol a'r Cynlluniau Lesiant Lleol yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n ofynnol gan Ddeddf Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r canllawiau anstatudol ategol ar ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiadau mewn aseidiadau a chynlluniau llesiant yn argymhell dull gweithredu mwy gwerthusol a beirniadol wrth ddefnyddio tystiolaeth, a fydd yn gofyn am allu ac adnoddau a sgiliau ychwanegol (Llywodraeth Cymru, 2016b).

1.6 Gall Llywodraeth Cymru, a BGCau, ddefnyddio'r wybodaeth a gaiff ei chreu drwy'r gwaith ymchwil hwn mewn sawl ffordd. Er enghraifft, o ran yr agweddau gwerthusol ar yr Aseidiadau o Lesiant Lleol a Chynlluniau Lesiant Lleol, bydd yn golygu y gellir nodi meysydd lle y gall fod angen cymorth dadansoddol ychwanegol, yn ogystal â nodi cryfderau posibl ac asedau y gellir adeiladu arnynt. Mae gordewdra ymhlith plant yn arbennig o addas mewn perthynas â'r gofynion hyn, oherwydd a) y duedd yw bwrw ati i'w ystyried mewn ffordd gydweithredol gyda gweithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol yn chwarae rhan amlwg; a b) o gymharu â phynciau eraill, gwnaed cryn dipyn o waith ymchwil i'r pwnc sy'n golygu ei fod yn addas ar gyfer arfer myfyrion yn seiliedig ar dystiolaeth.

³ Er eglurder, ni ddylid ystyried bod hyn mewn unrhyw ffordd yn arwydd o ba mor dda y mae BGLlau/BGCau yn perfformio mewn perthynas â gordewdra ymhlith plant na pha mor effeithiol y bu dulliau gweithredu unigol.

2. Dulliau a Dull Gweithredu

- 2.1 Gwnaed y gwaith ymchwil hwn rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2015 fel rhan o gynllun Interniaethau PhD Llywodraeth Cymru. Er y cymerwyd gofal wrth ddylunio'r gwaith ymchwil mewn ffordd gadarn y gellir ei hatgynhyrchu, nid yw'n systematig nac yn gynhwysfawr o bell ffordd. Y bwriad oedd y byddai'n datgelu rhai o'r prif ystyriaethau sy'n gysylltiedig ag asesu canlyniadau/effeithiau drwy ofyn am farn ymarferwyr yn y maes ac ystyried eu barn ochr yn ochr â chorff tystiolaeth sefydledig ar asesu ymyriadau mewn perthynas â gordewdra ymhlith plant.
- 2.2 I ddechrau, cynhaliwyd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth, gan ganolbwyntio ar nifer yr achosion o blant gordew a thros bwysau a'r driniaeth ar eu cyfer, ac ar ddulliau a fframweithiau ar gyfer gwerthuso ymyriadau iechyd y cyhoedd.
- 2.3 Adolygwyd ymatebion pob BGLI i adroddiad ESGV yn fanwl, er mwyn cael syniad o'r mathau o ymyriadau a mentrau sydd ar waith ac i ba raddau y maent yn cydymffurfio ag argymhellion Grŵp Llywio ESGV a'r llenyddiaeth ehangach ar atal gordewdra ymhlith plant. Adolygwyd ymatebion hefyd er mwyn nodi pa ddulliau gwerthuso, os o gwbl, a ddefnyddir yn gyffredin gan BGLlau.
- 2.4 Yn dilyn hyn, dewiswyd nifer o BGLlau i'w hastudio ymhellach. Ni ddewiswyd BGLlau ar hap ond fe'u dewiswyd er mwyn darparu sampl amrywiol ar sail nifer o feini prawf.⁴ Roedd hyn yn cynnwys lleoliad a bwrdd iechyd, er mwyn sicrhau cydbwysedd o ardaloedd o bob cwr o Gymru.
- 2.5 Yn ogystal, mae Rhaglen Mesur Plant Cymru wedi tynnu sylw at gysylltiad rhwng lefelau gordewdra ac amddifadedd, dewiswyd BGLlau hefyd ar sail lefel amddifadedd yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC - Llywodraeth Cymru 2015). I ddechrau, cysylltwyd â swyddogion cymorth BGLlau a gofynnwyd iddynt nodi pa aelodau o'r BGLI fyddai'n meddu ar y wybodaeth a'r profiad mwyaf perthnasol mewn perthynas â'r strategaeth gordewdra leol. Mewn gwirionedd, roedd hyn yn golygu mai'r BGLlau eu hunain a ddewisodd yr aelodau i gymryd rhan. Gall hyn olygu bod rhywfaint o duedd yn y sampl o gymharu â phe dewiswyd aelodau yn yr un rolau rhagddiffiniedig ym mhob ardal. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiaeth o swyddi y mae aelodau BGLlau yn eu cynrychioli a'r gwahanol flaenoriaethau a dulliau gweithredu a ddewiswyd ar draws BGLlau, yn aml nid oes gan unigolyn

⁴ Roedd y meini prawf hyn fel a ganlyn: lleoliad (Gogledd, Canolbarth a De Cymru), bwrdd iechyd, lefel amddifadedd a graddau a natur y camau gweithredu a oedd ar waith yn ôl ymatebion y BGLI i adroddiad ESGV.

mewn un BGLI swyddog cyfatebol mewn BGLI arall. Roedd yr unigolion y cyfwelwyd â nhw yn cynrychioli amrywiaeth o rolau a sefydliadau, gan gynnwys aelodau ym maes iechyd y cyhoedd, hamdden a chwaraeon, mentrau gwrthdlodi, dieteteg a'r swyddogion cymorth eu hunain. Cymerodd cyfanswm o 12 o aelodau o 6 BGLI ran mewn cyfweiliadau lled-strwythuredig er mwyn ystyried y themâu allweddol canlynol:

- Sut yr ystyrir gordewdra
- Pam y dewiswyd y mentrau presennol sy'n anelu at fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant a sut y cawsant eu datblygu
- Pa ymyriadau yr ystyrir eu bod yn effeithiol a pham
- Y mathau o ymdrechion monitro a gwerthuso sydd ar waith

2.6 Dewiswyd unigolion i gyfweled â nhw o'r BGLIau canlynol:

- Blaenau Gwent
- Ceredigion
- Conwy a Sir Ddinbych
- Merthyr Tudful
- Rhondda Cynon Taf
- Wrecsam

2.7 Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru er mwyn ennyn dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwyliwyd o ran gwerthuso ac asesu effaith ar y lefel leol.

2.8 Darperir y canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweiliadau yn Atodiad A.

3. Y Sail Dystiolaeth Bresennol

3.1 Mae gordewdra yn bryder iechyd byd-eang amlwg. Mae mynegai màs y corff (BMI) wedi bod yn cynyddu'n raddol ledled y byd, ac mae achosion o ordewdra bron wedi dyblu ers 1980 (Stevens et al., 2012). Mae gordewdra yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau iechyd andwyol, gan gynnwys lefelau marwolaeth gormodol (Prospective Studies Collaboration, 2009) a chyflyrau cronig megis pwysedd gwaed uchel a diabetes (Mokdad et al., 2003). Mae gordewdra ymhlith plant yn gysylltiedig

ag amrywiaeth o gyd-afiachusrwyddau seicolegol yn ystod plentyndod (Pulgaron, 2013) ac mae'n cyfrannu at ordewdra (Serdula et al., 1993), afiachusrwydd a marwolaeth (Reilly a Kelly, 2011) ymhlith oedolion. Dengys y dadansoddiadau diweddaraf sydd ar gael o Raglen Mesur Plant Cymru 2014-15 (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016) fod 26.2% o blant oedran derbyn yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew, lefel sy'n sylweddol uwch yn ystadegol na'r lefel yn Lloegr.

3.2 Defnyddiwyd amrywiaeth o ymyriadau mewn amrywiaeth o leoliadau er mwyn ceisio mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant. Yn y DU, maent wedi cynnwys gostyngiad wedi'i dargedu yn y diodydd meddal a gaiff eu hyfed mewn ysgolion (James et al., 2004), dulliau gweithredu yn seiliedig ar rianta a theuluoedd (Robertson et al., 2012), ac ymyriadau chwarae gweithredol (O'Dwyer et al., 2012), ymhlith eraill.

3.3 Daeth adolygiad systemataidd a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Cochrane Collaboration o ymyriadau wedi'u hanelu at atal gordewdra ymhlith plant (Waters et al., 2011) i'r casgliad y gall ymyriadau o'r fath fod yn effeithiol wrth leihau tewdra mewn plant. Gellir cyflawni effeithiau bach ond sy'n glinigol arwyddocaol sy'n cyfateb i ostyngiad o tua 0.15 kg/m². Oherwydd natur amrywiol a chymhleth yr ymyriadau a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn, ni fu'n bosibl nodi elfennau mwyaf effeithiol yr ymyriadau atal gordewdra. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad y polisïau a'r strategaethau canlynol sy'n gyffredin i raglenni buddiol:

- Cwricwlwm ysgol sy'n cynnwys bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol a delwedd unigolion o'u corff
- Sesiynau cynyddol ar gyfer gweithgarwch corfforol a threfniadau i ddatblygu sgiliau symud sylfaenol drwy gydol yr wythnos yn yr ysgol
- Gwelliannau o ran ansawdd maethol y cyflenwad bwyd mewn ysgolion
- Amgylcheddau ac arferion diwylliannol sy'n helpu plant i fwyta bwydydd iachach a bod yn weithgar drwy gydol bob dydd
- Cymorth i athrawon ac aelodau eraill o staff roi strategaethau a gweithgareddau hybu iechyd ar waith (e.e. datblygiad proffesiynol, gweithgareddau meithrin gallu)
- Cymorth i rieni a gweithgareddau i'r cartref sy'n annog plant i fod yn fwy gweithgar, i fwyta bwydydd mwy maethlon ac i dreulio llai o amser yn ymgymryd â gweithgareddau yn seiliedig ar sgrîn

- 3.4 Yn ddiau, gallai BGCau ddylanwadu ar y rhan fwyaf o'r strategaethau hyn ac felly, gallent ddarparu strategaethau effeithiol i wasanaethau cyhoeddus sy'n cydweithio ar lefel leol eu defnyddio wrth fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant.
- 3.5 Wrth fynd i'r afael â gordewdra, mae Adroddiad Foresight y llywodraeth (Foresight, 2007) yn tynnu sylw at yr angen i newid agweddau tuag at bolisïau gordewdra, gyda gordewdra yn cael ei ailddiffinio fel problem gymdeithasol ac economaidd yn hytrach na dim ond problem iechyd. Yr ethos a oedd yn sail i ddatblygu BGLlau oedd annog partneriaethau rhwng amrywiaeth o randdeiliaid lleol ac annog trefniadau cydweithio ac felly dylai BGLlau, ac o fis Ebrill 2016, BGCau, fod mewn sefyllfa ddelfrydol i weithredu mewn modd cyfannol i leihau cyfraddau gordewdra ymhlith plant.
- 3.6 Mae Foresight hefyd yn tynnu sylw at yr angen i gynnal gwerthusiadau parhaus o strategaethau gordewdra er mwyn gallu sicrhau gwelliannau parhaus. Dylai strategaethau gordewdra parhaus gael eu hategu gan ddadansoddiadau gan arbenigwyr, prosesau casglu data a fframwaith gwerthuso cadarn (Foresight, 2007, tud 15). Fodd bynnag, cyn cynnal y gwaith ymchwil hwn, nid oedd yn eglur i ba raddau yr oedd BGLlau yn cynnal gwerthusiadau effeithiol o'u hymdrechion.
- 3.7 Yn aml, nodwyd bod gwerthuso yn bryder ym maes iechyd y cyhoedd ac mae nifer o anawsterau yn gysylltiedig â gwerthuso ymyriadau cymhleth yn y maes. Mae'r anawsterau yn cynnwys effeithiau pellgyrhaeddol ymyriadau y tu hwnt i'r maes iechyd, ac amrywynnau rhyngweithiol lluosog sy'n ei gwneud hi'n anodd nodi cysylltiadau achosol unigol (Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin, 2009). Mae hyn yn atgyfnerthu'r cyfraniad pwysig y gall yr astudiaeth hon ei wneud, drwy leisio barn ymarferwyr am y ffordd y caiff y broses o werthuso canlyniadau ei hystyried a'i gweithredu yng Nghymru, mewn maes gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud defnydd helaeth o dystiolaeth.
- 3.8 Mewn rhai rhannau o'r llenyddiaeth werthuso, ystyriwyd ers amser mai hap-dreialon rheoledig oedd y 'safon euraid' o ran arfer werthuso. O ran materion cymdeithasol cymhleth, nid dyma fydd yr achos bob tro; yn wir, bydd hap-dreialon rheoledig yn aml yn anymarferol am amrywiol resymau technegol, yn rhy ddrud neu'n rhy feichus ar gyfer y mater dan sylw. Mae dulliau gweithredu amgen, megis dulliau gweithredu yn seiliedig ar ddamcaniaethau, yn aml yn ddewisiadau amgen mwy dichonadwy, weithiau mwy cymesur pan na fydd yn bosibl cynnal treialon rheoledig neu pan na fydd yn ddymunol gwneud hynny (Blamey a Mackenzie, 2007).

- 3.9 Mae dulliau gweithredu yn seiliedig ar ddamcaniaethau yn cynnwys Gwerthuso realistig a Gwerthuso Damcaniaeth Newid, nad oes angen defnyddio rheolaeth arbrofol ar gyfer y naill na'r llall. Mae dulliau gweithredu realistig yn olrhain y canlyniadau sy'n dod i'r amlwg o gyfuniadau penodol o systemau newid a chyd-destunau arfaethedig, gan ymdrechu i arsylwi pa rai o'u plith sy'n arwain at y canlyniadau dymunol. Maent yn anelu at ateb cwestiynau o ran beth sy'n gweithio, i bwy ac o dan ba amgylchiadau. Mae dulliau gweithredu Damcaniaeth Newid yn cynnig ffordd o asesu i ba raddau y mae ymyriad wedi cael effaith, yn ogystal ag agor 'blwch du' ymyriad er mwyn deall y rhesymau pam y bu neu na fu'n effeithiol. Maent yn mapio'r mewnbynnau, y camau gweithredu, yr allbynnau, y canlyniadau a'r effeithiau y disgwylir iddynt ddigwydd o ganlyniad i ymyriad. Wrth wneud hyn, mae dulliau gweithredu Damcaniaeth Newid yn golygu y gellir archwilio'r cysylltiadau achosol rhwng cadwyn o ganlyniadau a ph'un a wnaeth y broses weithredu adlewyrchu'r ddamcaniaeth ddisgwyliedig.
- 3.10 O ystyried natur gymhleth gwerthuso ymyriadau iechyd y cyhoedd, datblygwyd nifer o adnoddau er mwyn hwyluso ymdrechion gwerthuso. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellir defnyddio'r data a gesglir gan ddefnyddio canllaw neu fframwaith cyson nid yn unig i asesu effaith gyffredinol ymyriad ar iechyd y cyhoedd, ond hefyd i gymharu ymyriadau lluosog â'i gilydd ac i lywio penderfyniadau ynghylch dosbarthu adnoddau i'r rhaglenni mwyaf effeithiol.
- 3.11 Un adnodd o'r fath yw fframwaith RE-AIM (Glasgow, Vogt a Boles, 1999), a ddefnyddiwyd yn helaeth i werthuso ymyriadau gordewdra ac a addaswyd i'w ddefnyddio wrth asesu effaith polisïau hybu iechyd ehangach yn ogystal ag ymyriadau unigol ar iechyd y cyhoedd (Jilcott et al., 2007). Trafodir RE-AIM yma yng nghyd-destun camau gweithredu gan BGLlau, ond dim ond er mwyn rhoi enghraifft o'r math o ddull gwerthuso y gall BGCau ystyried ei roi ar waith. Nid argymhellir RE-AIM uwchlaw fframweithiau a dulliau gweithredu eraill sydd ar gael. Mewn perthynas â gordewdra yn arbennig, byddai yr un mor ddilys ystyried y Fframwaith Gwerthuso Safonol gan yr Arsyllfa Gordewdra Genedlaethol (Roberts, Cavill a Rutter, 2009). Yn ddiau, ceir nifer o ddulliau gwerthuso eraill a allai fod yn addas ar gyfer y mathau o broblemau y mae BGCau yn ymdrin â nhw.
- 3.12 O fewn fframwaith RE-AIM, gellir cysyniadoli effaith ymyriad iechyd y cyhoedd fel swyddogaeth pum ffactor rhyngweithiol: cyrhaeddiad, effeithiolrwydd, mabwysiadu, gweithredu a chynnal. Mae'r dull gweithredu hwn yn nodi y dylid ehangu tystiolaeth

o effaith er mwyn cynnwys mwy na dim ond effeithiolrwydd er mwyn ystyried natur gymhleth ymyriadau iechyd y cyhoedd sydd ar waith yn y byd go iawn. Er bod effeithiolrwydd yn allweddol wrth bennu effaith, mae'r rhan fwyaf o werthusiadau sy'n seiliedig ar y boblogaeth yn canolbwyntio ar welliant mewn dangosydd iechyd penodol wedi'i dargedu yn unig, megis y data BMI a gesglir drwy'r Rhaglen Mesur Plant. Yn y cyd-destun cyfredol, gyda llawer o wahanol ymyriadau yn cael eu rhoi ar waith ar yr un pryd gan wasanaethau cyhoeddus ar lefel leol, mae unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Fesur yn debygol o fod wedi dod i gysylltiad â llawer o ymyriadau. Nid yw dangosyddion effeithiolrwydd o'r fath yn rhoi unrhyw arwydd o berfformiad ymyriadau unigol ac nid oes unrhyw ffordd o wahaniaethu rhwng mentrau effeithiol a mentrau sy'n tanberfformio. At hynny, gallai dull gweithredu o'r fath arwain at fethu effeithiau negyddol anfwriadol. Felly, mae RE-AIM yn argymhell y dylai gwerthusiadau iechyd y cyhoedd gynnwys amrywiaeth o fesurau effeithiolrwydd sy'n gysylltiedig â'r systemau achosol damcaniaethol allweddol a'r canlyniadau bwriadedig. Gall y rhain gynnwys mesurau megis lefelau gweithgarwch, newid o ran gwybodaeth, newid o ran amgylchedd, safbwyntiau rhanddeiliaid, ansawdd bywyd, defnyddio gwasanaethau, cyfraddau atgyfeirio a mesurau hunanbarch.

- 3.13 Mae lefelau cyrhaeddiad a mabwysiadu yn cynrychioli nifer yr unigolion y defnyddir yr ymyriad ar eu cyfer a'r nifer o leoliadau sy'n darparu'r ymyriad hwnnw. O ystyried y caiff data o'r fath yn aml eu casglu fel rhan o asesiadau Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau (RBA), mae'n debygol bod gan BGLlau wybodaeth am lefelau cyrhaeddiad a mabwysiadu eisoes. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dealltwriaeth wirioneddol o effaith, dylid ystyried cynrychioladwyedd lleoliadau a nodweddion risg cyfranogwyr er mwyn sicrhau cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau. Mae cydraddoldeb yn fater penodol yn y maes hwn gan fod cysylltiad agos rhwng gordewdra ymhlith plant ac ieuencid ac anfantais economaidd-gymdeithasol (White et al., 2007) ac mae'n bwysig sicrhau bod ymyriadau yn cyrraedd y rheini sydd eu hangen fwyaf. Er y gall fod yn anodd ymgysylltu â'r cyfranogwyr hyn, nododd adolygiad diweddar Cochrane y gall ymyriadau sydd wedi'u hanelu at atal gordewdra ymhlith plant yn aml gael effaith anghymesur o gadarnhaol ar grwpiau o dan anfantais.
- 3.14 Fel y nodwyd yn RE-AIM, ni ddylid diystyru gwybodaeth am weithredu ymyriadau wrth asesu effaith. Mae'n bosibl na fydd methiant ymyriad o reidrwydd yn

adlewyrchu diffyg effaith, ond yn hytrach, diffyg gweithredu. Mae hyn yn cynnwys agweddau ar ymddygiad cyfranogwyr (e.e. wrth gydymffurfio â'r ymyriad) a gweithredoedd hwyluswyr (e.e. gallu staff i gyflwyno'r rhaglen fel y bwriadwyd, argaeledd adnoddau). Gall gwerthuso prosesau ddarparu gwybodaeth o ran pam y mae rhaglen yn methu neu'n arwain at ganlyniadau anfwriadol yn ogystal ag asesu dilysrwydd ac ansawdd y broses weithredu, egluro systemau achosol a nodi ffactorau cyd-destunol sy'n gysylltiedig ag amrywiadau mewn canlyniadau. Dylai cwestiynau arweiniol wrth gyflwyno adroddiadau ar y broses weithredu ymwneud â'r ffordd mae'r ymyriad yn gweithio, i bwy, o dan ba amodau ac am ba gost (Waters et al., 2011).

4. Canlyniadau

Adolygiad o Ymatebion BGLlau i Adroddiad ESG

- 4.1 Dengys ymatebion BGLlau i adroddiad Grŵp Llywio ESG eu bod eisoes yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o gamau gweithredu sy'n gydnaws â'r strategaethau argymelledig a nodwyd yn adolygiad Cochrane, a bod y camau hynny hefyd yn gyson â'r canlyniadau a gyflwynwyd yn adroddiad ESG. Yn arbennig, camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol a gwella'r gallu i gael gafael ar fwydydd iach a darparu bwydydd iach mewn ysgolion. Yn ogystal, roedd sawl BGLI yn rhan o brosiectau atal gordewdra mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar ac iechyd mamau, megis rhaglenni bwydo ar y fron a maeth mewn lleoliadau cyn oed ysgol, nad ymdriniwyd â nhw gan argymhellion Cochrane nac argymhellion ESG.
- 4.2 O ran fframwaith RE-AIM, er enghraifft, roedd BGLlau fel petaent eisoes yn ymgymryd ag agweddau ar gyrhaeddiad a mabwysiadu'r fframwaith hwn gyda'r rhan fwyaf o BGLlau yn cofnodi ffigurau ar gyfer nifer y bobl a oedd yn ymgymryd â gweithgareddau a/neu nifer y darparwyr sy'n ymwneud â gweithredu ymyriadau. Fodd bynnag, ni roddwyd cymaint o ystyriaeth o bell ffordd i'r ffactorau ychwanegol a nodwyd yn y fframwaith. Prin oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan BGLlau am nodweddion demograffig y rheini a oedd yn cymryd rhan mewn mentrau gordewdra, er enghraifft, ac nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos p'un a oedd mentrau mewn gwirionedd yn llwyddo i gyrraedd eu poblogaethau targed. Ni ddarparodd BGLlau ychwaith fawr ddim gwybodaeth am weithredu na chynnal rhaglenni. Mae'r ffactorau

hyn yn bwysig, nid yn unig er mwyn asesu effaith, ond er mwyn darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer rhannu arfer rhwng BGLlau. Gall casglu gwybodaeth am yr union broses o weithredu mentrau a thynnu sylw at unrhyw heriau lleol fod o gymorth wrth lywio'r dull gweithredu wrth gymhwyso'r un dechneg mewn ardal arall.

Cyfweliadau â Rhanddeiliaid

- 4.3 Datgelodd cyfweliadau â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y rhanddeiliaid hyn o'r farn bod BGLlau mewn sefyllfa dda i annog dull gweithredu cyfannol wrth fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant a gwella'r broses werthuso yn y maes hwn. Pwysleisiwyd ganddynt yr angen am fwy o gydweithredu wrth ddatblygu a chyflwyno ymyriadau o fewn BGLlau a rhwng BGLlau. Un o'r prif bryderon oedd y dylai trefniadau gwerthuso fod yn rhan o raglenni ac y dylid diffinio canlyniadau a dangosyddion o'r cychwyn cyntaf, yn enwedig os oedd disgwyl i hwyluswyr werthuso eu rhaglenni eu hunain. Teimlwyd mai'r dull gweithredu mwyaf buddiol ym maes gordewdra ymhlith plant fyddai pennu cyfres ddiffiniedig o fesurau y byddai disgwyl i bob rhaglen gyflwyno adroddiad arnynt, gan olygu y gellid cymharu ledled Cymru. Byddai cyfres o fesurau o'r fath o fudd i BGLlau, nid yn unig er mwyn deall canlyniadau ac effeithiau, ond hefyd er mwyn monitro cynnydd ledled Cymru ar lefel sefydliadol. Cydnabu rhanddeiliaid fod BGLlau yn aml yn wynebu cryn bwysau o ran cyllid ac amser a nodwyd yr angen am dargedau realistig yn seiliedig ar ddilyniant yn hytrach na chanlyniadau absoliwt.

Cyfweliadau â Byrddau Gwasanaethau Lleol

- 4.4 Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg sy'n rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae BGLlau yn gweithredu a ble y gellir meithrin gallu er mwyn deall canlyniadau ac effeithiau yn y dyfodol.

Barn BGLlau ar ordewdra a'r angen i asesu effaith

- 4.5 Roedd BGLlau yn gyffredinol o'r farn bod gordewdra ymhlith plant yn fater trawsbynciol sy'n gysylltiedig â rhwydwaith ehangach o ddylanwadau cymdeithasol ac economaidd. Ystyrir materion megis iechyd meddwl a llesiant, cyflogaeth ac addysg ochr yn ochr â gordewdra. Roedd BGLlau mewn sefyllfa ddefnyddiol i fynd i'r afael â materion o'r fath mewn modd cyfannol, ond yn y rhan fwyaf o achosion, partneriaid iechyd y cyhoedd a byrddau iechyd sy'n cymryd yr awenau wrth ymateb i'r agenda gordewdra. Aelodau BGLlau mewn swyddi iechyd y cyhoedd a oedd yn

cael eu hargymell fwyaf gan swyddogion cymorth fel ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliadau.

- 4.6 Roedd y rhan fwyaf o BGLlau yn ymwybodol iawn o'r bylchau yn eu gallu i ddeall canlyniadau ac yn deall gwerth meithrin y gallu hwn ond nid ydynt yn siŵr o'r ffordd orau o wneud hynny. Er bod y rhan fwyaf o BGLlau yn defnyddio Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau fel rhan o'u proses werthuso, nid yw'r dull hwn yn gofyn am esboniadau achosol o ran sut a pham y mae ymyriadau yn gweithio ac felly, ni fydd yn arwain at werthusiad ystyrion ar ei ben ei hun. Roedd BGLlau yn sylweddoli pwysigrwydd deall eu gweithredoedd a'u heffaith er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ond roedd gallu cyfyngedig yn llesteirio hyn.

'the main aim of the legislation with the SIPs and the well-being plans is to become more efficient and effective and delivering better outcomes, it's very difficult to do that if you haven't got the right things in place to be able to really dig deep.'

Defnyddio tystiolaeth a dethol camau gweithredu

- 4.7 Mae cyfeirio at y sail tystiolaeth empiraidd wrth ddethol a datblygu ymyriadau yn allweddol wrth ddeall prosesau achosol ac felly allu gwerthuso a dyblygu ymyriadau yn well. Roedd yr agwedd tuag at dystiolaeth empiraidd a'r defnydd ohoni yn amrywiol. Roedd rhai BGLlau yn gwneud defnydd helaeth o dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau wrth nodi blaenoriaethau a dethol camau gweithredu, gan gynnwys gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru a chynghorau ledled y DU a defnyddio gwaith ymchwil cyhoeddedig, canllawiau NICE ac ymgynghoriadau â'r gymuned a rhanddeiliaid lleol. Roedd BGLlau eraill o'r farn, er bod arfer yn seiliedig ar dystiolaeth yn bwysig, y dylid bob amser allu addasu cynlluniau yn unol ag anghenion lleol unigryw, neu roedd yn well ganddynt dderbyn gwybodaeth bersonol gan gydweithwyr yr oeddent yn ymddiried ynddynt na chanllawiau penodedig. Roedd rhai hefyd o'r farn nad oedd sail tystiolaeth ddigonol y gellid ei defnyddio i ddod i gasgliadau pendant o ran pa ddulliau oedd fwyaf effeithiol wrth atal gordewdra ymhlith plant. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd BGLlau yn cyflwyno o leiaf rai ymyriadau a ddatblygwyd yn wreiddiol ar sail tystiolaeth, hyd yn oed os nad oedd y BGLI yn gwneud defnydd uniongyrchol o dystiolaeth empiraidd ei hun.

- 4.8 Er gwaethaf yr ystyriaeth hon o'r sail dystiolaeth a oedd yn aml yn eang mewn llawer o achosion, wrth ddethol camau gweithredu, roedd penderfyniadau gan amlaf yn seiliedig ar ba adnoddau a oedd ar gael a pha bartneriaid a oedd yn y sefyllfa

orau i gyflawni. Mae dull gweithredu o'r fath yn debygol o effeithio ar y gallu i ddeall y canlyniad a/neu'r effaith, gan na chaiff prosesau gwerthuso na dangosyddion canlyniadau eu llunio ar ddechrau'r rhaglen, a nododd rhanddeiliaid y gallai hyn fod yn broblem bosibl.

- 4.9 Roedd yn werth nodi bod rhai o'r unigolion y cyfwelwyd â nhw yn amau gwerth gwerthuso ymyriadau a oedd eisoes yn seiliedig ar dystiolaeth. Teimlwyd gan fod yr ymyriadau hyn wedi'u datblygu a'u cyflwyno'n unol â thystiolaeth gadarn neu arfer argymelledig y dylent felly gael effaith. Teimlwyd y byddai gwerthuso'r ymyriad hwnnw hefyd bron fel awgrym bod y gwaith ymchwil cychwynnol yn anghywir neu nad oedd y BGLI yn cyflwyno'r ymyriad i safon ddigon uchel. Mae hyn yn awgrymu bod cyfle i ddatblygu rôl gwerthuso prosesau, sy'n monitro sut y caiff ymyriadau eu gweithredu a sut y mae hyn yn debygol o effeithio ar y canlyniadau dilynol. Hyd yn oed pan fydd ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth a lle y cadarnhawyd eu bod yn effeithiol, mae angen goruchwyllo i raddau sut maent yn gweithredu a gall hyn ddylanwadu ar eu heffeithiolrwydd.

'If we know something is good practice why would you want to measure it as well? Why would you follow something through and measure when the evidence base is already saying if you do this you'll get that [...] are we saying that the programme doesn't deliver what it should?'

Sut mae BGLlau yn barnu llwyddiant

- 4.10 Ni nododd unrhyw BGLI fod ganddo gyfres ddiffiniedig neu gyson o ddangosyddion ar gyfer barnu llwyddiant ymyriadau ar gyfer gordewdra ymhlith plant, yn aml roedd aelodau unigol o'r un BGLI yn nodi eu safbwyntiau unigryw eu hunain am lwyddiant ymyriad.
- 4.11 Mewn rhai achosion, roedd llwyddiant yn ôl pob tebyg yn fwy seiliedig ar gynaliadwyedd ac hunanddigonolrwydd cynllun (y wybodaeth ei fod yn gweithio'n ymarferol, yn hytrach na'i gynnyrch terfynol). Mewn achosion eraill, ystyriwyd bod rhaglenni yn llwyddiant gan eu bod wedi cael eu gweithredu'n eang mewn lleoliadau lle na fyddai unrhyw gamau gweithredu ar waith fel arall. Yn aml, ystyriwyd bod canlyniadau'r ymyriadau hyn, yn enwedig ymyriadau system gyfan megis y Cynllun Ysgolion Iach neu ddeddfwriaeth megis y Ddeddf Teithio Llesol, yn anniriaethol ac na ellid eu cofnodi gan ddefnyddio mesurau penodol unigol. Yn hytrach, gwelwyd newid cyffredinol mewn amgylcheddau ac agweddau ehangach. Yn yr un modd, er y gallai ymyriadau a gyflwynwyd o fewn y sector iechyd ddefnyddio cofnodion

iechyd a dulliau asesu a oedd yn bodoli eisoes, teimlwyd ei bod yn llawer anos i ymyriadau gan y sector cymunedol ddiffinio dangosyddion canlyniadau addas. Yn aml, soniodd yr unigolion y cyfwelwyd â nhw am y ffaith eu bod yn 'credu' yn y camau gweithredu a oedd ar waith ganddynt ond nad oeddent yn gallu dangos yn bendant eu bod yn gwbl effeithiol.

- 4.12 Er bod yr unigolion y cyfwelwyd â nhw o'r farn bod rhywfaint o waith gwerthuso cadarn yn mynd rhagddo, fe'i disgrifiwyd fel gwerthuso 'tameidiog' neu werthuso 'mewn pocedi' yn hytrach na gwerthuso cyffredinol. Roedd p'un a gynhaliwyd gwerthusiad da o brosiect ai peidio yn dibynnu ar natur a graddfa'r rhaglen gyda rhaglenni mawr wedi'u hariannu'n allanol yn cael gwell gwerthusiad.

'Quite big joint programmes like European social funded programmes have to have evaluation built into them, then you have other more local projects that maybe for one reason or another fall off the radar and kind of get forgotten about.'

Rhwystrau sy'n atal dealltwriaeth o effaith

- 4.13 Trafodwyd nifer o ffactorau a oedd yn cyfyngu ar allu BGLI i asesu effaith yn effeithiol. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â chyfyngiadau ar yr adnoddau, y cyllid a'r gallu cyffredinol oedd ar gael ond nodwyd gwerthuswyr posibl a'r rheini a oedd yn cael eu gwerthuso hefyd.

'It's the capacity. It's people not recognising the value. They're that busy getting on with the task and what they have got to do. Whether or not it makes a difference at the end of it, they are usually on the next thing by then aren't they?'

- 4.14 Roedd ymdeimlad hefyd y gall y broses werthuso fod yn llethol ac yn 'anhydryn', gan fod symiau helaeth o ddata yn cael eu casglu er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth allweddol ei methu ond ei bod wedyn yn anodd sicrhau bod y data hyn yn ystyrllon. Roedd y dull gweithredu hwn yn groes i'r angen i sicrhau bod adnoddau cynhwysfawr ond cryno ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd casglu symiau anhydryn o ddata hefyd yn fagl posibl a nodwyd gan randdeiliaid.

- 4.15 Un o'r rhwystrau a nodwyd yn eang o ran cynnal gwerthusiadau addas oedd cyfyngiadau amser. Mae hyn yn rhannol yn deillio o'r canfyddiad bod ymyriadau iechyd y cyhoedd yn gyffredinol, ac ar gyfer gordewdra yn arbennig, yn cymryd cryn amser i gael effaith.

'I wouldn't expect to see yearly improvements; I would hope to see 5 or 10 yearly improvement'

4.16 Yn ogystal, roedd natur cylchoedd ariannu a'r angen i roi adborth cyflym ar gynnydd yn golygu bod pwysau amser yn gysylltiedig â'r broses werthuso. Mewn achosion o'r fath, roedd yn rhaid i'r broses werthuso ddibynnu ar dulliau llai cadarn a data ansoddol yn unig, gan gynnwys 'ffydd' mewn prosiectau.

'They hit the end of their funding cycle, the new funding's coming out in 3 months, you've only got 3 months to evaluate that project and know whether it's worth. You go on what they say, anecdotal evidence, 'we believe this project works' rather than doing a really comprehensive evaluation.'

4.17 At hynny, teimlwyd weithiau bod disgwyliad afrealistig oddi uchod o ran yr hyn y gellir ei gyflawni ar lefel leol, gan fod BGLlau fel arfer yn gweithredu ymyriadau bach â chyllideb gyfyngedig. Yn hytrach, byddai angen polisiâu cenedlaethol megis treth siwgr er mwyn cael effaith amlwg ar lefelau gordewdra ymhlith plant yn y boblogaeth.

4.18 Er bod BGLlau wedi nodi bod ganddynt gamau gweithredu ar waith i gyrraedd grwpiau difreintiedig, ystyr hyn fel arfer oedd eu bod yn targedu ardaloedd neu gymunedau risg uchel. Roedd llai o wybodaeth o ran p'un a oedd yr unigolion mwyaf agored i niwed neu'r unigolion a oedd yn wynebu risg uchel a oedd yn rhan o'r cymunedau hyn mewn gwirionedd yn defnyddio'r gwasanaethau.

4.19 Roedd yr holl ffactorau hyn yn cyfyngu ar allu BGLlau i werthuso, er gwaethaf eu hawydd i wella eu dealltwriaeth o effaith. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd yr unigolion y cyfwelwyd â nhw hefyd o'r farn bod anfanteision yn gysylltiedig â gwerthuso. Roedd canfyddiad bod rhywfaint o risg yn gysylltiedig â gwerthusiadau cadarn gan y gallai ddatgelu diffyg effaith (o bosibl oherwydd maint yr ymyriad a natur amffactoraidd gordewdra) ac y gallai effeithio ar adnoddau a pharhad prosiectau. Gellir cysylltu'r mater hwn hefyd â'r ffaith mai hwyluswyr yr ymyriad eu hunain sy'n aml yn gyfrifol am gynnal y gwerthusiad, problem arall a nodwyd gan randdeiliaid. Nid yw gwerthuswyr mewn sefyllfa agos o'r fath yn debygol o allu llunio barn cwbl ddiuedd ac mae ganddynt fwy i'w golli o gyfaddef nad yw ymyriad wedi gweithio nag ymchwilydd annibynnol.

'You always see something really good in, because you know, programmes are very rarely all bad, complete rubbish. You know there is always something to be gleaned [...] we're saying 'oh but this bit was really good', instead of 'yeah but the majority of it is absolutely nonsense'. We don't want to admit that we've wasted money, if you like'

[there's no point in saying] I want you to do x and note the difference that you've made because it's not one thing that makes a difference for childhood obesity, it's multifactorial. So if we put in one project we wouldn't note any difference anyway. And I think that would be my concern, because they wouldn't be able to see the value and then they might say 'what's the point in doing this because there's no difference made' and I think we've got to be very careful'

- 4.20 Teimlwyd y byddai gofyn yn gyson i bartneriaid gyflwyno adroddiadau ar effaith eu camau gweithredu pan nad oeddent yn debygol, mewn gwirionedd, o fod wedi cael effaith fawr ar ordewdra ymhlith plant yn ehangach yn cael effaith andwyol ar forâl. Mewn senario o'r fath, gall partneriaid fethu â gweld gwerth y camau a gymerwyd ganddynt wrth gyfrannu at yr ymdrech gydweithredol ehangach i leihau lefelau gordewdra ymhlith plant. Mae hyn yn awgrymu rôl bosibl i brosesau meta-werthuso a'r broses o gyfosod tystiolaeth ar ordewdra ymhlith plant a materion tebyg, gan ddefnyddio cyfraniadau unigol i asesu'r cynnydd cyffredinol tuag at ganlyniad cyffredin. Mae hefyd yn awgrymu, yn ei dro, y gallai fod rôl i Lywodraeth Cymru wrth hwyluso prosesau meta-ddadansoddi o'r fath mewn perthynas â materion allweddol.

Tystiolaeth feintiol o gymharu â thystiolaeth ansoddol

- 4.21 Pwysleisiwyd pwysigrwydd data ansoddol wrth ddarparu cynrychiolaeth 'fwy cyfoethog' o'r ffordd y mae ymyriadau yn gweithredu. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd BGLlau o'r farn bod sefydliadau yn rhoi pwyslais ar ddata meintiol, megis ffigurau cyflwyno, ar draul data ansoddol. Ystyriwyd bod data ansoddol, yn wahanol i ddata meintiol, yn allweddol wrth hysbysu'r BGLI am ganfyddiadau'r rheini a oedd yn derbyn yr ymyriadau, a'u bod yn allweddol fel 'adnodd gwerthu' ar gyfer cyfleu gwerth ymyriadau i wneuthurwyr penderfyniadau a chyrrff gweithredol.

'It's making executive bodies more understanding of their communities. Making it more real.'

- 4.22 Nid ystyriwyd bod data meintiol ar eu pen eu hunain yn ddigon o ran cyfleu'r stori gyflawn, er y cydnabuwyd bod yn rhaid ategu data ansoddol â 'data caled'.

'Case studies seem to hit home [...] but backed up with data rather than just hope'

5. Casgliadau ac argymhellion

- 5.1 Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn galonogol. Maent yn awgrymu bod BGLlau yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau agored ac ystyrion ynghylch gwerthuso a bod ganddynt ymwybyddiaeth gymharol uchel o bwysigrwydd gwerthuso a'r heriau cysylltiedig. Maent hefyd yn awgrymu bod BGLlau yn awyddus i feithrin eu gallu a datblygu eu dulliau ar gyfer asesu canlyniadau ac effeithiau. Ar y llaw arall, mae'r gwaith ymchwil hefyd yn datgelu (mewn perthynas â gordewdra ymhlith plant o leiaf) fod y gallu a'r sgiliau a oedd ar gael i BGLlau asesu canlyniadau ac effeithiau'n effeithiol yn gyfyngedig.
- 5.2 Er mwyn i BGCau fod yn barod ar gyfer y cyfrifoldebau newydd a fydd arnynt mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn sicr bydd mwy o flaenoriaeth ar ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiadau yn effeithiol i werthuso gwasanaethau mewn ffordd feirniadol a llywio'r broses o ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn dod i rai casgliadau perthnasol yn hyn o beth, ac ym maes gordewdra ymhlith plant yn fwy cyffredinol:
- 5.3 Yn gyntaf, mae'n amlwg bod angen canllawiau a chymorth ychwanegol mewn perthynas ag asesu effeithiolrwydd ymyriadau i ordewdra ymhlith plant. Yn arbennig, roedd yr awydd am gyfres gyffredin o fesurau canlyniad, neu ryw fath o fframwaith canlyniadau, yn amlwg yn y dystiolaeth. O ystyried bod BGLlau wedi nodi amrywiad eang o ran eu dulliau ar gyfer barnu eu heffeithiolrwydd, a'u bod yn aml yn teimlo na allent ei ddangos mewn ffordd ystyrion, byddai datblygiad o'r fath yn amlwg o fudd, gan roi man cychwyn cyffredin i BGCau a chynnig cyfleoedd i gymharu ardaloedd ac ymyriadau. Byddai fframwaith neu gyfres o ganlyniadau hefyd yn golygu y byddai angen casglu llai o ddata yn gyffredinol ac o bosibl yn cael gwared ar achosion o ddata diangen neu ymylol.
- 5.4 Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallai unrhyw ganllawiau yn hyn o beth fod yn ddefnyddiol wrth helpu i bennu disgwyliadau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni. Gwnaeth y gwerthusiad o brosiect datblygu a chyflawni blaenoriaethau BGLlau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Llywodraeth Cymru 2016a) argymhellion tebyg, gan dynnu sylw at y ffaith bod y canlyniadau ar gyfer rhai prosiectau yn annelwig gan olygu eu bod yn anodd i'w mesur, gyda phrosiectau eraill yn darganfod nad oedd eu canlyniadau yn realistig ac felly yn canolbwyntio ar werthuso cynnydd tuag at ganlyniadau canolradd. Felly byddai canllawiau o ran pa fathau o ganlyniadau a maint y canlyniadau y dylid eu disgwyl ar unwaith, yn y tymor canolradd ac yn y

tymor hwy o fudd, gan helpu BGCau i asesu eu heffeithiolrwydd yn y byrdymor ac i ddeall sut mae eu hymdrechion yn cyfrannu at ganlyniadau tymor hwy ar lefel y boblogaeth.

- 5.5 Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd yma bod BGLlau yn gwerthfawrogi tystiolaeth ansoddol a'u bod yn ei hystyried fel adnodd hanfodol wrth ddadansoddi'r esboniadau sy'n sail i'r dystiolaeth feintiol ar ordewdra ymhlith plant. Mae'r dystiolaeth hefyd yn nodi bod y dulliau ar gyfer casglu a defnyddio data ansoddol yn gymharol annatblygedig a bod lle i'w gwella.
- 5.6 Dangosodd tystiolaeth o'r cyfweiliadau gyda swyddogion BGLlau hefyd nad oedd BGLlau yn ystyried trefniadau gwerthuso fel mater o drefn yn ystod camau cynnar y gwaith o ddatblygu ymyriadau, nac wrth ddewis eu dulliau gweithredu. Cydnabyddir yn eang y dylid ystyried cynlluniau ar gyfer gwerthuso wrth gynllunio polisïau ac ymyriadau, er mwyn cynyddu 'gwerthusadwyedd' y fenter ac er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â'r cwestiynau perthnasol (Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin, 2009). Yn wir, mae'r defnydd o asesiadau gwerthusadwyedd yn dod yn fwy cyffredin yn Adrannau Llywodraeth y DU a'r Alban ac mae'n amlwg y gellid cyflwyno trefniadau tebyg ym maes gordewdra ymhlith plant.
- 5.7 **O ystyried y dystiolaeth hon, argymhellir y dylid datblygu cyfres gytûn o ganlyniadau ar gyfer ymyriadau ym maes gordewdra ymhlith plant,** gan ganolbwyntio ar y canlyniadau uniongyrchol, yn y tymor canolradd ac yn y tymor hwy ac ar ba lefel o newid y gellid ei disgwyl yn realistig; byddai hyn yn lleihau achosion o ddyblygu ymdrech wrth fesur ac yn golygu y gellir cynnal cymariaethau ystyrion.
- 5.8 Dylid hefyd ystyried canfyddiadau'r darn cymharol gul hwn o waith ymchwil yng nghyd-destun ehangach sut y mae'n ofynnol i BGCau ddefnyddio tystiolaeth yn eu Hasesiadau o Lesiant Lleol ac wrth ddatblygu eu Cynlluniau Llesiant Lleol. Bu hon yn thema eilaidd, ond pwysig, yn y gwaith ymchwil hwn. Fel yr amlinellwyd eisoes, mae'r dystiolaeth yma yn dangos rhai o'r heriau y mae BGCau yn debygol o'u hwynebu, yn arbennig o ran dylunio mentrau yn seiliedig ar dystiolaeth, cyfleu sut y bwriedir i ymyriadau weithio ac asesu eu heffeithiolrwydd mewn ffordd gymesur ond ystyrion. Mae'n deg dweud bod y dystiolaeth a gesglir mewn perthynas â gordewdra ymhlith plant yn berthnasol i faterion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol cymhleth eraill a bod y cwestiynau sylfaenol y byddai BGCau yn eu gofyn mewn perthynas â nhw yn debygol o fod yn debyg.

5.9 I raddau, mae gordewdra ymhlith plant yn feincnod uchel i gymharu yn ei erbyn. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae'n faes lle ceir tystiolaeth helaeth, wedi'i hategu gan amrywiaeth eang o waith ymchwil empiraidd, adolygiad systematig a threfniadau cadarn ar gyfer casglu data cenedlaethol. At hynny, mae'n fater sy'n naturiol yn dwyn ymarferwyr o faes iechyd y cyhoedd ac amrywiol feysydd o lywodraeth leol, addysg ac iechyd ynghyd. Fel y cyfryw, mae ymyriadau ym maes gordewdra ymhlith plant yn dueddol o fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn addas iawn i'w gwerthuso. Ni fydd hyn yn wir am bob mater y bydd BGCau yn ei ystyried fel rhan o'u Hasesiadau a'u Cynlluniau a bydd rhai ohonynt yn gymharol annatblygedig ac, o ganlyniad, yn fwy heriol.

5.10 **Fel y cyfryw, argymhellir y dylai BGCau (gan olygu hefyd y sefydliadau sy'n rhan ohonynt sy'n cyfrannu at Aseadau o Lesiant Lleol a Chynlluniau Llesiant Lleol) ystyried datblygu neu weithredu fframwaith gwerthuso sylfaenol.** Dylid gallu cymhwyso fframwaith o'r fath yn gyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio ar fater neu bwnc penodol, megis gordewdra ymhlith plant. Dylai hefyd fod yn ddigon hyblyg i allu ei addasu. O ystyried yr amrywiaeth o fframweithiau ac adnoddau sydd ar gael eisoes, fwy na thebyg ni fyddai angen datblygu fframwaith newydd wedi'i deilwra'n arbennig. Mae'n bwysicach annog mwy o gysondeb a chadernid yn y ffordd y mae BGCau yn asesu canlyniadau. Byddai fframwaith o'r fath yn ddelfrydol yn cynnwys yr holl nodweddion a amlinellir uchod, a fyddai'n cynnwys:

- Rhyw fath o asesiad gwerthusadwyedd llai manwl, ar gyfer ymyriadau newydd a phresennol, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y gellir cynnal gwerthusiad ystyrion o'r camau cynnar iawn ac er mwyn nodi'r dull gwerthuso mwyaf priodol;
- Rhywfaint o ganllawiau ar sut i ddefnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes i ddylunio a llywio ymyriadau - h.y sut i ddefnyddio elfennau llwyddiannus o ddulliau gweithredu sy'n bodoli eisoes a'u cynnwys yn ymarferol mewn cyd-destun arall;
- Canllawiau ar sut i osod cwestiynau gwerthuso ystyrion, e.e. gwahaniaethu rhwng y dulliau gweithredu allweddol megis gwerthuso prosesau a gwerthuso canlyniadau a chwestiynau am effaith, sy'n llawer mwy heriol o ran methodoleg;

- Argymhellion ar y math o ddata a thystiolaeth i'w casglu er mwyn cynnal asesiad ystyrlon o effeithiolrwydd;
- Canllawiau ar y ffordd orau o ddadansoddi a dehongli tystiolaeth mewn ffordd werthusol.

Ni fydd yr astudiaeth hon yn mynd mor bell ag argymell fframwaith gwerthuso penodol i'w fabwysiadu.

- 5.11 Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu mai dull partneriaeth yw'r ffordd orau o ymdrin â gordewdra ymhlith plant gan fod y mater yn berthnasol i wahanol wasanaethau. Canfu'r gwaith ymchwil hwn, er bod ymyriadau yn seiliedig ar bartneriaethau, bod y mwyafrif yn cael eu harwain o safbwynt iechyd yn hytrach na dull gweithredu cwbl integredig. Dangosodd y gwaith ymchwil mai prin fu'r gwaith gwerthuso a wnaed i ystyried effaith y dewis hwn o drefniant, os o gwbl.
- 5.12 **Felly, argymhellir hefyd y dylai BGCau roi mwy o bwyslais ar werthuso prosesau (neu ryw fath o adolygiad gweithredu), fel ffordd o ddeall effeithiolrwydd.** Hyd yn oed lle bo ymyriadau yn seiliedig i raddau helaeth ar dystiolaeth neu arfer gorau, nid yw hyn yn golygu nad oes angen cynnal gwerthusiad cadarn, yn enwedig os bydd yr ymyriadau wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion lleol. Ond yn yr achosion hynny, neu lle nad yw gwerthuso canlyniadau yn ddichonadwy, gall fod yn ddigonol canolbwyntio ar sut y gweithredwyd yr ymyriad, drwy werthuso'r broses, ac a fyddai/sut y byddai hyn wedi effeithio ar ganlyniadau. Hyd yn oed os bydd pob cam gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth, gall amrywiaeth o ffactorau megis y broses weithredu a demograffeg cyfranogwyr danseilio effeithiolrwydd ymyriadau. Os bydd effeithiolrwydd yr ymyriad eisoes wedi'i gadarnhau, yna mae'n bosibl na fydd angen cynnal gwerthusiad o ganlyniadau neu effaith. Mae'r trefniadau ar gyfer gwerthuso prosesau yn gymharol symlach ac yn llai costus i'w rhoi ar waith na gwerthusiad o ganlyniadau neu effaith ac mae'r set sgiliau sydd ei hangen yn llai beichus i BGCau.
- 5.13 **Yn olaf, argymhellir y dylid dosbarthu prif ganfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn mewn ffordd wedi'i thargedu a'u trafod gyda'r cynulleidfaedd y gallent fod o'r budd mwyaf iddynt.** Yn gyntaf, mae'n bwysig sicrhau y caiff y canfyddiadau eu rhannu gyda'r gymuned o ymarferwyr sy'n gweithio ym maes gordewdra ymhlith plant yng Nghymru, fel cyfle i fyfyrion ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwerthuso canlyniadau a'u deall. Gall hyn arwain at roi ystyriaeth bellach i

fframwaith gwerthuso, neu o leiaf at gytuno ar gyfres o ganlyniadau. Yn ail, dylid rhannu'r canlyniadau gyda'r gymuned o ymarferwyr sy'n arwain y broses o ddatblygu Aseidiadau Llesiant Lleol a Chynlluniau Llesiant Lleol ar ran y BGCau yng Nghymru. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae BGCau wrthi'n troi eu sylw at elfen 'Dadansoddi Ymatebion' eu gwaith, a fydd yn gofyn iddynt ddefnyddio tystiolaeth mewn ffordd fwy gwerthusol a beirniadol i lywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol yn eu hardaloedd lleol. Gall yr astudiaeth hon, ni waeth pa mor fach, ychwanegu at y drafodaeth barhaus ynghylch meithrin gallu dadansoddol, yn enwedig mewn perthynas â gwerthuso, a gallai weithredu fel catalydd ar gyfer camau gweithredu cadarnhaol yn y maes hwn.

Cyfeiriadau

Blamey, A. a Mackenzie, M., 2007. Theories of change and realistic evaluation peas in a pod or apples and oranges?. *Evaluation*, 13(4), tud 439-455.

Foresight (2007), *Tackling Obesities: Future Choices – Project Report*. Ail argraffiad. Llundain: Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth

Glasgow, R.E., Vogt, T.M. a Boles, S.M., 1999. Evaluating the public health impact of health promotion interventions: the RE-AIM framework. *American Journal of Public Health*, 89(9), tud 1322-1327.

Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin (2009). *Health Inequalities. Third Report of Session 2008-9*. Llundain: Y Llyfrfa

James, J., Thomas, P., Cavan, D. a Kerr, D., 2004. Preventing childhood obesity by reducing consumption of carbonated drinks: cluster randomised controlled trial. *British Medical Journal*, 328(7450), tud 1237.

Jilcott, S., Ammerman, A., Sommers, J. a Glasgow, R.E., 2007. Applying the RE-AIM framework to assess the public health impact of policy change. *Annals of Behavioral Medicine*, 34(2), tud 105-114.

Mokdad, A.H., Ford, E.S., Bowman, B.A., Dietz, W.H., Vinicor, F., Bales, V.S. a Marks, J.S., 2003. Prevalence of obesity, diabetes, and obesity-related health risk factors, 2001. *Journal of the American Medical Association*, 289(1), tud 76-79.

O'Dwyer, M.V., Fairclough, S.J., Knowles, Z. a Stratton, G., 2012. Effect of a family focused active play intervention on sedentary time and physical activity in preschool children. *International Journal of Behavioral Nutrition and Physical Activity*, 9(1).

Prospective Studies Collaboration, 2009. Body-mass index and cause-specific mortality in 900 000 adults: collaborative analyses of 57 prospective studies. *The Lancet*, 373(9669), tud 1083-1096.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) Rhaglen Mesur Plant Cymru 2014/2015 [ar-lein] Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/86271/> [Cyrchwyd 15 Medi 2016].

Pulgaron, E.R., 2013. Childhood obesity: a review of increased risk for physical and psychological comorbidities. *Clinical therapeutics*, 35(1), tud A18-A32.

Reilly, J.J. a Kelly, J., 2011. Long-term impact of overweight and obesity in childhood and adolescence on morbidity and premature mortality in adulthood: systematic review. *International Journal of Obesity*, 35(7), tud 891-898.

Roberts, K., Cavill, N. a Rutter, H., 2009. Standard evaluation framework for weight management interventions. *National Obesity Observatory*.

Robertson, W., Thorogood, M., Inglis, N., Grainger, C. a Stewart-Brown, S., 2012. Two-year follow-up of the 'Families for Health' programme for the treatment of childhood obesity. *Child: Care, Health and Development*, 38(2), tud 229-236.

Serdula, M.K., Ivery, D., Coates, R.J., Freedman, D.S., Williamson, D.F. a Byers, T., 1993. Do obese children become obese adults? A review of the literature. *Preventive Medicine*, 22(2), tud 167-177.

Stevens, G.A., Singh, G.M., Lu, Y., Danaei, G., Lin, J.K., Finucane, M.M., Bahalim, A.N., McIntire, R.K., Gutierrez, H.R., Cowan, M. a Paciorek, C.J., 2012. National, regional, and global trends in adult overweight and obesity prevalences. *Population Health Metrics*, 10(22).

Waters, E., de Silva Sanigorski, A., Hall, B.J., Brown, T., Campbell, K.J., Gao, Y., Armstrong, R., Prosser, L. a Summerbell, C.D., 2011. Interventions for preventing obesity in children (review). Cochrane Collaboration, (12), tud 1-212.

Waters, E., Hall, B.J., Armstrong, R., Doyle, J., Pettman, T.L. a de Silva-Sanigorski, A., 2011. Essential components of public health evidence reviews: capturing intervention complexity, implementation, economics and equity. *Journal of Public Health*, 33(3), tud 462-465.

Llywodraeth Cymru (2016a). Prosiect datblygu a chyflawni blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop. [ar-lein] Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/european-social-fund-local-service-board-development-priority-delivery-project/?lang=cy> [Cyrchwyd 15 Medi 2016].

Llywodraeth Cymru (2016b). Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: canllawiau ynghylch y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad. [ar-lein] Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/160225-spsf-5-non-stat-guidance-part-4-wfh-act-cy.pdf> [Cyrchwyd 15 Medi 2016].

Llywodraeth Cymru (2014). Turning the Curve on Childhood Obesity in Wales [ar-lein] Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/improvingservices/public-services-leadership-panel/nwp/effectservices/preventative-action-childhood-obesity/?lang=cy> [Cyrchwyd 15 Medi 2016].

Llywodraeth Cymru (2015) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 [ar-lein] Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy> [Cyrchwyd 15 Medi 2016].

White, M., Adamson, A., Chadwick, T., Dezateux, C., Griffiths, L., Howel, D., Kelly, S., Law, C., Li, L., Lo Conte, R. a Power, C., 2007. The changing social patterning of obesity: an analysis to inform practice and policy development. *Public Health Research Consortium Report*, (4).

Atodiad A

Canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd mewn cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr BGLlau

Cwestiynau Agoriadol

Dywedwch wrthyf am eich rôl yn y BGLI

Beth oedd eich cyfraniad at ymateb y BGLI at adroddiad ESGV?

Sut yr ystyrir gordewdra?

A yw'r holl bartneriaid wedi cytuno ar strategaeth gordewdra ddiffiniedig?

I ba raddau y caiff pob un o bartneriaid y BGLI ei gynnwys wrth bennu strategaeth gordewdra?

- Pa bartneriaid sy'n ymwneud fwyaf â'r strategaeth gordewdra?

A oes partner penodol yn gyfrifol am yr agenda gordewdra?

Pa faterion a gaiff eu hystyried ochr yn ochr â gordewdra?

- Sut mae gordewdra yn berthnasol i'r materion eraill a nodwyd yn y Cynllun Integredig Sengl?

A oes unrhyw grwpiau polisi neu strategaeth penodol yn y BGLI sy'n gysylltiedig â gordewdra?

- A oes ffocws penodol ar blant?

A ddysgwyd unrhyw wersi o feysydd llesiant plant eraill (e.e. *gofal cymdeithasol*) a gymhwyswyd i'r strategaeth gordewdra?

Pam y dewiswyd yr ymyriadau hyn a sut y'u datblygwyd?

A gyfeirir at y CIS neu'r asesiad o anghenion wrth ddewis camau gweithredu?

- Sut y defnyddir y CIS yn ymarferol, a allwch sôn am y broses hon?
- Disgrifiwch y broses o ddewis rhaglen i'w gweithredu
- Pa brif flaenoriaethau a ystyrir wrth ddewis camau gweithredu?
- Sut rydych yn dueddol o gyflawni'r nodau hyn?
- A oes ffactorau eraill sydd fel arfer yn dylanwadu fwyaf ar benderfyniadau?

A yw'r partneriaid yn cydweithio er mwyn pennu ymyriadau?

Ai'r partneriaid mwyaf profiadol sy'n arwain ym mhob maes?

- A ystyrir pa gamau eraill sydd ar waith er mwyn osgoi achosion o orgyffwrdd a sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl?

Wrth ddatblygu a dewis camau gweithredu, a ydych yn cynnwys tystiolaeth o'r hyn a fu'n effeithiol mewn manau eraill?

- *Unrhyw enghreifftiau*
- Sut rydych yn cael gafael ar y math hwn o wybodaeth?
- Ar ba ffurf y cyflwynir y wybodaeth hon fel arfer?

Fel arall, sut rydych yn cynnwys unrhyw argymhellion o ran arfer gorau?

A gaiff rhaglenni eu treialu?

- Pam felly
- A fuoch erioed mewn sefyllfa lle na wnaeth rhywbeth a weithiodd rywle arall weithio neu lle nad oedd yn ymarferol yma?
- A fu'n rhaid i chi addasu rhaglenni erioed?
- A yw hyn yn rhywbeth a gaiff ei ystyried fel mater o drefn?

Pa fath o gydberthynas waith sydd gennych â sefydliadau'r trydydd sector?

- A yw sefydliadau'r trydydd sector yn cynnal eu gwaith monitro neu werthuso eu hunain?
- A ydynt yn rhannu'r canlyniadau gyda chi?
- A ydych byth yn cydweithio i ymgymryd â gwaith monitro neu werthuso?

A yw'r BGLI/cyngor yn datblygu ei ymyriadau ei hun?

- A oes tîm penodol yn gyfrifol am hyn?
- Pa wybodaeth a ddefnyddir fel rhan o'r broses ddatblygu?

Sut y deellir yr angen am werthuso a pha drefniadau monitro sydd ar waith?

A allwch ddweud wrthyf am y dull gwerthuso cyffredinol yn y maes?

A ddefnyddir unrhyw adnoddau (e.e. pecynnau cymorth, fframweithiau) i lywio ymdrechion monitro?

- Pam y dewiswyd [y fframwaith hwn]?
- Pa fuddiannau sy'n gysylltiedig â'i ddefnyddio?
- Beth yw eich barn am y dull hwnnw?

Sut y caiff gwybodaeth ei rheoli yn y BGLI?

- *Gan ystyried y math hwn o wybodaeth...*
- A oes unigolyn penodol yn gyfrifol am reoli gwybodaeth o'r fath?
- Wrth baratoi gwybodaeth ar gyfer tasgau o'r fath, sut mae'r gwahanol bartneriaid yn cydgysylltu eu cyfraniad?

A ydych yn olrhain y broses o roi'r cynlluniau a'r ymyriadau hyn ar waith?

A yw hyn ar ffurf dadansoddiad ffurfiol o brosesau?

- Pwy sy'n casglu'r wybodaeth hon?
- Sut y caiff ei defnyddio?
- A yw'r wybodaeth a gesglir yn gysylltiedig â'r ffordd y disgwylir i'r ymyriad weithio?

- Pa mor gyffredin yw hyn?

A ydych yn defnyddio data o arolygon cenedlaethol?

- A ydych yn dibynnu'n sylweddol ar y data hyn at ddibenion gwerthuso a monitro?

Rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau o ymyriadau penodol a gaiff eu gwerthuso'n drylwyr (e.e. Her Teulu Sir Benfro), a oes unrhyw enghreifftiau o hyn yn eich ardal chi?

- Pwy a gydgysylltodd y gwaith hwn?
- Pam y dewiswyd y fenter benodol hon (*ar gyfer gwerthusiad manwl*)?
- Os felly, a oes unrhyw rai o'r dulliau hyn ar waith o hyd?
- A ddysgwyd unrhyw sgiliau trosglwyddadwy?
- A wnaed unrhyw ymdrech i gymhwyso'r un tactegau at brosiect gwahanol?
- Sut y defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd?

A ydych yn monitro nifer y bobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau a chyrraedd gweithgareddau?

- Pam?
- Sut rydych yn defnyddio'r wybodaeth hon?
- Pwy sy'n casglu'r wybodaeth hon?

Os *felly*, a roddir unrhyw ystyriaeth i nodweddion y cyfranogwyr?

- Pa fath o wybodaeth a gesglir?
- Sut y defnyddir y wybodaeth hon?
- A gaiff hyn ei ystyried yn flaenoriaeth o ran gwerthuso?

- A roddir ystyriaeth benodol i anfantais wrth ddatblygu a chyflwyno ymyriadau?
- A oes gennych unrhyw ddulliau ar gyfer olrhain p'un a yw'r ymdrechion hyn mewn gwirionedd yn cyrraedd y rheini sydd eu hangen?

A ydych yn cymharu cynnydd â thargedau?

- O ble y daw'r targedau hyn?
- Pa fath o wybodaeth y mae hyn yn ei rhoi i chi?
- A oes unrhyw beth nad yw'n ei ddatgelu a fyddai'n ddefnyddiol?

Pa adnoddau sydd gennych at ddibenion gwerthuso?

- Pa gymorth sydd ei angen arnoch er mwyn gwella eich gallu gwerthuso?

Soniodd llawer o ymatebion am gyfyngiadau ariannol a chyllidebol, a yw hyn yn cael unrhyw effaith ar eich gallu i werthuso?

Pa ymyriadau, os o gwbl, yr ystyrir eu bod yn effeithiol ac ar ba sail?

A oes unrhyw ymyriadau sy'n arbennig o effeithiol, ym marn y BGLI?

- Pam yr ymyriad penodol hwn?
- Pa fath o werthusiad a gynhaliwyd?
- A gynhelir unrhyw waith monitro parhaus?
- A gymhwyswyd unrhyw wersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn at brosiectau eraill?

Hoffwn wybod sut rydych yn barnu llwyddiant ymyriadau o'r fath, a allwch sôn am hynny?

- Beth yw'r prif ganlyniadau y mae'r farn hon yn seiliedig arnynt?
- A sut rydych yn dewis y canlyniadau hyn?
- Pa fath o wybodaeth a ffeirir gan y BGLI?

Wrth farnu llwyddiant, pa fath o feincnodau rydych wedi cymharu cynnydd yn eu herbyn?

- A ydych yn casglu gwybodaeth llinell sylfaen o gwbl?

A oes unrhyw ymyriadau o fannau eraill neu'n genedlaethol sydd fwyaf effeithiol neu sy'n dangos arfer gorau, ym marn y BGLI?

- A oes unrhyw gynlluniau i fabwysiadu'r ymyriad hwnnw yma?
- Os nad oes, beth yw'r rhwystrau?
- Os oes, beth fyddai'n hwyluso'r broses o fabwysiadu'r ymyriad?

A ydych yn rhannu eich llwyddiannau neu fethiannau gyda BGLIau eraill?

- A yw BGLIau eraill yn rhoi gwybod i chi am eu llwyddiannau neu eu methiannau?

A gaiff unrhyw bartneriaid allanol eu cynnwys wrth werthuso'r ymyriadau hyn?

- Ar ba ffurf y gwneir hyn?
- A ofynnir am unrhyw gyngor annibynnol mewn ffyrdd eraill?

A oes unrhyw faterion nad ydym wedi ymdrin â nhw sy'n bwysig yn eich barn chi neu ym marn y BGLI ehangach?

Canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd mewn cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid

A allwch ddweud rhywfaint wrthyf am gefndir eich rôl?

A oes gennych unrhyw brofiad o weithio ar lefel llywodraeth leol neu gyda phartneriaid lleol?

Beth yw'r disgwyliadau o ran deall effaith?

Beth yw'r farn o ran yr angen i werthuso ar y lefel leol?

Yn fras, beth rydych yn ei ddisgwyl o ran gwerthuso ar y lefel leol?

Yn eich profiad chi, beth yw'r agwedd tuag at werthuso ar y lefel leol?

Beth ddylai fod yn digwydd, yn eu barn nhw

Pa fathau o werthuso y byddech yn gobeithio eu gweld yn cael eu cynnal er mwyn asesu effaith ymyriadau iechyd y cyhoedd ym maes gordewdra ymhlith plant?

I ba raddau y gellir cyflawni hyn ar y lefel leol, yn eich barn chi?

Pa rôl y dylai byrddau gwasanaethau lleol/awdurdodau eu chwarae wrth werthuso?

Yn eich profiad chi, a oes unrhyw heriau penodol a wynebir ar y lefel leol?

Neu unrhyw enghreifftiau lle y daethoch ar draws arfer da?

A yw eich adran yn cyfrannu at ymdrechion gwerthuso ar y lefel leol neu'n cefnogi ymdrechion o'r fath mewn unrhyw ffordd?

Beth yw eich barn am rai o'r dulliau gwerthuso cyfredol a ddefnyddir yn eang?

Beth yw'r problemau sy'n gysylltiedig â'r dulliau gwerthuso cyfredol?

Sut mae'r dulliau gweithredu cyfredol yn gydnaws â deddfwriaeth (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)

O ystyried y gofynion newydd a osodir ar wasanaethau lleol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, **a yw'r ymdrechion gwerthuso cyfredol yn addas, yn eich barn chi?**

Sut mae materion megis datblygu cynaliadwy a dyletswyddau llesiant yn effeithio ar drefniadau gwerthuso?

I ba gyfeiriad y dylem anelu yn y dyfodol?

O ystyried y cafeatau a drafodwyd a gofynion deddfwriaeth newydd...

Yn y pen draw, mewn byd delfrydol, beth y byddech yn ei ddisgwyl o werthuso?

- Pa fath o ddulliau
- Pa fath o ddata a gesglir

Pa fath o gasgliadau y gellid dod iddynt na wneir ar hyn o bryd?

A fyddech yn disgwyl unrhyw newid mewn agweddau at werthuso yn y dyfodol?

- *Os byddech*, beth fydd yn llywio'r newidiadau hyn, yn eich barn chi?

A oes unrhyw gamau llai y gellir eu cymryd yn y dyfodol agos, yn eich barn chi?